Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 13. Rhif 9.] MEDI, 1913. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Adroddiad yr Ysgrifenydd am 1913.
Gair ar Grwydr. Sarnicol.
Gair o'r Gadair Genedlaethol.
Sarnicol—Bardd Cadeiriol 1913.
Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru (Gyda darlun.)
Heresi yn mhlith y Wesleyaid.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

NOW READY and may be obtained of

J. D. LEWIS, "YR YMOFYNYDD" OFFICE, LLANDYSSUL.

—:o:—

"An Interpretation of Rudolph Eucken's Philosophy."

By the Rev. W. TUDOR JONES, PH.D.

Price 5s. nett.

This Book deals with Prof. Eucken's philosophy in a far more extensive manner than has hitherto been attempted in England.

TALIADAU.

D.T., Penarfawr; J.P., St. Clears; Parch. D.J.E., Chester; J.J., Aberaman; H. J., Nantymoel; J. E., Nantymoel; T. D., Montreal, Canada.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad . . . . . .

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1913. [CYF. XIII. RHIF 9.

ADRODDIAD YR YSGRIFENYDD, 1913.

WRTH gyflwyno rhyw lun o adroddiad o'r flwyddyn sydd yn awr yn terfynu, anhawdd gwybod yn gywir am beth yr ysgrifenwn, gan mai digwyddiadau cyffredin, gwaith distaw ac undonog nodweddir y cylch hwnw o eglwysi y perthynwn iddynt. Er ein mynych gwyno ac achwyn nad ydyw pethau megys ag y dylent fod, eto y mae genym oll achos i ddiolch fel yr hen sant hwnw gynt, "ei bod arnom megys ag y mae."

O gylch bychan y gweinidogion y mae yn flin genym orfod colli

Y PARCH. J. GLYNNE DAVIES,

o Hen Dy Cwrdd, Aberdâr, yr hwn aeth drosodd i'r Ynys Werdd i gymeryd gofal eglwys bwysig yno. Dymunwn Dduw yn rhwydd iddo yn ei gylch newydd. Teimlwn mai anhawdd llanw ei le yn fuan beth bynag. A thra yr ydym ar y pwnc hwn ofnwn, gan nad beth ydyw diffygion ein gweinidogion, nad ydyw yr eglwysi Cymreig yn ddigon effro i'r ffaith fod ein rhengoedd yn cael eu bylchu gan symudiadau cyson y gweinidogion ieuainge at y Saeson, lle y gwerthfawrogir yn fawr eu gwasanaeth. Gobeithio bydd y Drysorfa Gynorthwyol, pan ddaw, yn help i rwystro y duedd hon, ac y mae yn rhaid deffro yr eglwysi i weled y pwysigrwydd o geisio cadw ein bechgyn goreu rhag cael eu denu i adael y weinidogaeth Gymreig a myned drosodd at y Saeson.

Y mae y Gymdeithas Gynhaliol mewn perthynas a

COLEG CAERFYRDDIN

wedi gwneud gwaith campus oddiar pan ffurfiwyd hi rhyw flwyddyn yn ol. Y mae yno yn barod ddau fyfyriwr gobeithiol, a gair uchel iddynt gan eu hathrawon a'r rhai a'u clywsant yn ein pwlpudau. Deallwn fod bechgyn ieuainc eraill eto a'u gwynebau i'r un cyfeiriad.

Coleg Caerfyrddin sydd wedi rhoddi i'r eglwysi Cymraeg eu gweinidogion yn yr oesoedd gynt, a diau mai o'r cyfeiriad hwn mae eu gobaith goreu yn yr oesoedd a ddaw. Rhodded yr eglwysi y gefnogaeth oreu posibl i'r myfyrwyr, ac yn enwedig ar ol iddynt dyfu yn weinidogion os am eu cadw.

Drwg genym fod Ysgrifenydd

Trysorfa Addysgol y Bobl Ieuaingc

yn ymddiswyddo. Gobeithio y ceir olynydd teilwng iddo. Credaf mai nid gweinidogion ydyw y cymhwysaf i fegio arian fel hyn yn barhaus. Ai nid ydyw yn bosibl cael lleygwr gwresog, ymroddedig, a'i galon yn y gwaith i ymgymeryd â'r swydd bwysig hon?

Y mae y Llyfr Emynau a Thonau newydd wedi derbyn ein sylw am sawl blwyddyn bellach, a gobeithio y gwna yr eglwysi gymeryd dyddordeb ynddo hyd nes y gwna ei ymddangosiad.

Talwyd ymweliad â'n eglwysi yn sir Aberteifi gan

Dr. S. M. Crothers,

o'r America, a Dr. Tudor Jones, Llundain, yn yr haf diweddaf; pregethwyd ganddynt yn Pantdefaid, Capelygroes, a Brondeifi. Daeth cynulliadau mawrion yn nghyd i wrando arnynt. Talodd Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor—Mr. Charles Hawksley—ymweliad â ni ar achlysur cynhaliad ein cyfarfodydd chwarterol yn Llandyssul. Y mae ymweliadau cyfeillion fel hyn yn help i ni deimlo ein bod yn rhan o un symudiad mawr sydd a'u gangau yn estynedig dros gyfandiroedd.

Nid oes genym un adeilad newydd ar waith ar hyn o bryd, ond mae y cyfeillion yn Llandyssul yn son am adeiladu ysgoldy neu neuadd at eu gwasanaeth. Y mae adeilad o'r fath yn awr yn wir angenrheidiol mewn cysylltiad â phob eglwys. Y mae y mudiad yn Llandyssul wedi derbyn cefnogaeth fwyaf gwresog yr eglwys, ac y mae awgrym wedi ei daflu allan gan amryw y dylid gwneud yr adeilad newydd yn ddigon mawr i gynal ein

Cymanfa Gerddorol

yn hwylus. Dylasai dau neu dri o'n capelau fod yn ddigon eang i gynal yr wyl bwysig hon, ond nid oes genym yr un, a gorfodir ni yn barhaus fenthyca. Os penderfynir adeiladu y neuadd yn Llandyssul yn ddigon mawr at y gwaith hwn, gwna hyny ddyblu y draul, a bydd raid appelio at Undodiaid sir Aberteifi a thu allan, er cyfarfod â'r draul fawr hono. Byddai yn gaffaeliad mawr i gael adeilad felly.

Y mae graen llewyrchus a chalonogol i'w ganfod ar ein

Cymanfaoedd Ysgolion

a sefydliadau eraill perthynol i'r eglwysi. Y mae yr eglwysi gweiniaid hyny yn parhau i dderbyn help arianol gan y Gymdeithas, ac

hyderwn ein bod yn rhoddi help gwerthfawrocach na hwn, sef gwasanaeth personol diledryw ac hunan-aberth parod dros y gwirionedd.

Deil Yr Ymofynydd ei gylchrediad, ac fel y gwelir y mae yn talu ei ffordd ei hun. Y mae hyny i'w briodoli yn benaf i wasanaeth di-dâl cylch bychan a ffyddlon ein gohebwyr, a dymunwn gymeryd y cyfle hwn o gyflwyno iddynt ein diolchgarwch mwyaf diffuant am eu llafurus gariad. Y mae yr Ysgrifenydd wedi rhoddi o'i wasanaeth ddi-dór am yn agos dair blynedd-ar-ddeg fel Golygydd, a theimlai yn falch pe yr ymgymerai y pwyllgor â'i ryddhau o'r cyfrifoldeb hwnw ar ddiwedd y flwyddyn. Y mae wedi gwasanaethu yn barod yn mron cyhyd â'r hiraf o'r Golygwyr o'r dechreuad.

Ni fuasai yn iawn ynom derfynu hyn o adroddiad heb gyfeirio at amryw fylchau gwag wnawd yn ein rhengoedd gan angeu yn ystod y flwyddyn. Yr oedd rhai o honynt yn weithwyr amlwg iawn yn y winllan. A ydyw y dô ieuainc sydd yn codi yn sylweddoli fod pob bwlch gwag yn gymhelliad o'r newydd iddynt hwy i osod eu hysgwydd yn dynnach dan y baich, fel y byddo i olwynion cerbyd newyddion da y grefydd rydd goleddwn redeg yn rhwyddach ac yn well nag erioed o'r blaen.

Llandyssul. T. Arthur Thomas.

GAIR AR GRWYDR.

[Gan Sarnicol.]

"Gwin a gawn yn nawn ein hoes
O rawnwin bore einioes."

ADGOFION mebyd yw cynnwys rhai o lyfrau mwyaf adnabyddus yr oes; oblegid annwyl gan bawb yw edrych yn ol ar ddyddiau heulog ieuenctyd. O'r adgofion hyn y tardd serch at y fan neilltuol lle'n ganed, at y llennyrch lle buom yn chware, at y mannau hynny lle buom gynt yn anadlu mwyniant o awelon bore einioes. Gyda threigl y blynyddau mae'r hen lwybrau, yr hen gyfeillion, a'r hen ardal yn myn'd o hyd yn anwylach ac anwylach; mae'r adgofion, megis gwin, yn gwella'n barhaus po fwyaf y'u cedwir.

Aml yr anghofir mai ieuenctyd yw rhan bwysicaf bywyd. Ymddangosiad yw amser onide. Mae ambell i awr yn llawer hwy na'r llall; ac y mae ambell i flwyddyn yn feithach o lawer na'i gilydd. Ac onid yw deng mlynedd gyntaf oes yn feithach na'r oll o'r gweddill, boed, os mynner, yn bedwar ugain a deg o flynyddoedd? Oblegid nid wrth oriawr, nag wrth haul a phlanedau y mae mesur amser, ond

Wrth Guriadau Calon Dyn.

I ŵr canol oed, pa le mae'r hafau hirfelyn tesog a brofodd gynt ar

feysydd meillionog maboed? Pa le mae'r oriau aur diderfyn a dreuliodd gynt ar ddolydd Mai a bronnydd Mehefin? Erbyn hyn mae'r gaeaf ar warthaf y gwr cyn yr egyr ei lygaid ar hinon haf, a'r nos yn ymdaenu drosto cyn iddo lwyr sylweddoli fod dydd arall o newydd wedi disgyn ar y ddaear o ffurfafen Duw. Mae bywyd yn rhy brysur i weled ei hun; a'r dydd yn myned yn mlaen yn rhy gyflym i weled dynesiad y nos.

Wrth dremio dros yr ysgwydd chwith, draw ymhell yn ol, ym mhellder anghyfrif y gorffennol, yn unig y gwelir hamdden a gorffwys; yno gwena seren sefydlog bywyd; yno y mae pob anghydgord wedi toddi'n fiwsig yn y meithder swynol draw. Yno mae bro aniflan hud a lledrith; yno mae gweled breuddwyd a gweledigaeth; yno mae tir y sylwedd diddarfod; yno mae'r graig gadarn ar yr hon y tery tonnau bywyd, weithiau yn ddagrau heilltion, bryd arall yn ewyn hyfryd a diflanedig.

Yr hyn sydd wir am febyd y dyn unigol, credwn hefyd ei fod yn ffaith ym mywyd y genedl. Unwaith y deffry o freuddwyd ieuenctyd i oleuni hunan-wybyddiaeth, mae ei bywyd yn myned yn galed, yn feirniadol, a di-ramant. Mae angel gwareiddiad, a chleddyf tanllyd gwyddor yn ei law, wedi gyrru'r genedl allan o

BARADWYS EI MEBYD,

i grwydro hyd wyneb y ddaear; ac un o'i phleserau pennaf mwyach yw tremio'n ol i gyfeiriad ei gwynfa goll.

Hyd yn hyn, yr ydym wedi llefain yn iaith y galon; a swm a sylwedd y cyfan a lefarwyd yw "Câs gwr na charo'r wlad a'i maco."

Eithr y mae gan reswm hefyd rywbeth i'w ddweyd ar y mater hwn o wladgarwch lleol; mae bywyd bro yn gynnyrch dadblygiad canrifoedd lawer; ac nid da ond a dyf yn araf. Rhy gyflym o lawer yw tyfiant wmredd o'n defodau diweddar wedi bod; rhy ddisymwth o lawer yw'r cyfnewidiad yn ein dull o wisgo, o siarad, o fwyta ac yfed, o drafaelu, o brynu a gwerthu, ac yn y blaen. Tyfiant araf sydd wedi cynyrchu'r gwr gonest garw o ganolbarth Ceredigion, a'r wraig ddiwair, ddiwyd a glanwedd sydd yn gofalu am ei dy a'i dân a'i deulu. Nid oes fawr berygl imi anghofio ei ffaeleddau yn yr oes oleuedig hon; mae pob hogyn sydd wedi ei gyffwrdd gan y tân santaidd Seisnig yn un o'n hysgolion elfenol neu ganolradd yn ddigon parod i estyn bys i ddangos dirfawr wendidau yr hen ffarmwr diddysg o gyrrau geirwon Banc Shon Cwilt, neu odrëon eithinog Pen Moelymor. Mae iddo fab yn bregethwr, neu yn giwrad neu yn ysgolfeistr efallai; ac nid bob amser y cofia'r mab y rhinweddau tadol hynny fu'n foddion iddo ddringo ffon ar ol ffon o ysgol serth a sigledig dyrchafiad. Anghofiwn gulni gwledig yr hen amaethwr yn nyfnder ysprydol ei fywyd; gadawn dros gof ei ddiffyg ymddiried yn yr estron a sylwn ar ei gariad at ei gymydog; peidiwn a'i ddirmygu'n ormodol am ei duedd i daro bargen galed ar ben ffair; mae John y mab yn y coleg, a Mari'r ferch yn cael hanner blwyddyn o ysgol yng

Nghaerfyrddin. Mae'r gwr yn hyddysg yn ei Feibl ac wedi darllen Caban F' Ewythr Twm lawer gwaith drosodd; cofia am erthyglau Hiraethog yn y *Faner;* mae ganddo gof am Mynyddog yn llywio mewn eisteddfod; ac y mae wedi clywed Tanymarian yn canu a Gwilym Marles a Herber yn pregethu. Mae'n deall y tywydd, ac yn gwybod llawer am arwyddion yr amserau. Mae lliw'r haul ar ei rudd a'i oleuni yn ei galon. Mae ei iaith yn gref ac ystwyth, a chornentydd Seisnig y trefydd a'r pentrefi heb olchi'r lliw allan o'i frawddegau. Mae gwawr y grug a phersawr blodau gwylltion y mynydd ar ei iaith. Nid yw wedi gwerthu ei enedigaeth fraint er ffioled o gawl Seisnigyddiaeth wasaidd. Efe ei hun ydyw; ac nid efelychiad o neb arall: gwell asyn byw na cheffyl pren; neu rhag ofn cam-ddealltwriaeth, gwell blodeuyn y dydd sy'n tyfu na rhosyn papur.

Ym mrys y newydd yr ydym yn anffafrio'r hen; fel plentyn mewn *bazaar* yn anghofio'r ardd tu ol i'r ty gartref. Yr hyn sydd dda yn yr hen cadwer ef; rhoddwn yr hen win yn ein costrelau newydd. Nid amhriodol efallai yw cyffesu yr ysgrifennir y geiriau hyn ar dramor draeth; a swn miwsig dieithr yn taro ar y glust a cheinder celfyddyd oreu Ewrob yn swyno'r llygad. Mae holl ieithoedd Prydain a'r Cyfandir i'w clywed yn gymhleth ar bob llaw; a gwyr a gwragedd teg eu moes a da eu byd yn difyr rodianna heibio wrth y cannoedd. Mae yma ddiwylliant ac eangder meddwl; mae cynnyrch goreu gwareiddiad diweddar i'w weled o amgylch,—y bachgen coeth ei feddwl, cryf ei gorff, ac—yn aml glân ei fuchedd; yr eneth hardd ei hosgo, lân ei phryd, ac yn aml—rhinweddol ei hymarweddiad. Ac eto, hyfryd, o leiaf i'm meddwl i, yw crwydro ar adenydd dychymyg, o swn y miwsig, o olwg y gwestai a'r chwaraedai gorwych, o blith y dorf geinwisg oludog, draw i fryn tawel yng Ngheredigion, lle mae'r grug yn dechreu agor eu blodau porffor i fyddinoedd y gwenyn crwydrol, lle mae'r hedydd yn esgyn y glas dilychwin i ganu eu ffarwel i'r haf, a lle mae'r hen ffarmwr gerllaw, a'i wraig a'i ferched a'i 'ddeiladon' yn cymryd eu 'hoe hogi' ar y toion gwynion yng nghanol y cae ceirch, a natur ac unigedd yn gwmpeini iddynt. Mewn gair, a chymharu y gwr yn ei het wen, a'i siwt fraith, a'i esgidiau gwynion a'i fodrwyau aur, a'i *cigar* yn ei enau—a'r hen ffermwr yna yn ei wasgod las a'i drowser rib, a'i esgidiau trymion a'i ddwylaw celyd—faint amgenach yw y naill na'r llall, dweder, i ymwelydd diragfarn o'r blaned Mawrth? Yn wir nid wyf yn sicr nad gwr y cae ceirch gai'r feirniadaeth oreu. Ond, ys dywed y Sais, mae yna lawer i'w ddywedyd o bob ochr; yn unig anghofier y gwaethaf a chofier y goreu o hyd. Un peth yn unig wyf yn sicr o hono—fod mwy o rinwedd yn mys bach un o enethod y cae ceirch nag sydd yn holl gyfansoddiad yr eneth yna sydd yn cerdded heibio i mi y munud hwn mewn gŵn tynn, a sodlau uchel, a gwefusau o goch benthyg, het anisgrifiadwy a *pharasol* o liw cynffon paen. Nid oes dim gwell i gymeriad na digon o waith caled a gonest; ac y mae hwnnw i'w gael ar Fanc Shon Cwilt; a gwn hyd at sicrwydd na fu'r eneth hon ar

Fanc Shon Cwilt yn ei bywyd, nag ar un banc arall lle bu dim gwaith yn cael eu wneud erioed. Ac eto—efallai fy mod yn rhy galed ar yr eneth o Baris—gwybod y cwbl yw maddeu'r cwbl medd un o'i chyd-wladwyr callaf.

Gwelaf o'm blaen y bywyd eang—fel y môr; bywyd llydan y Cyfandir; a dyheaf am y bywyd tawel a dwfn—fel yr eigion. Yn ei holl deithiau, ni wnaeth dyn ond darganfod gogoniant ei gartref ei hun; onid wedi treulio blynyddau meithion yn China y dychwelodd un gwr adref i ddarganfod aur ym mynwes mynyddau ei febyd? Rhy aml yr eir i chwilio am aur mewn bro bellenig, a'r mwn gwerthfawr yn disgwyl am ei gloddio yn ymyl drws y ty gartref. Ond, ys dwedai

Tomos yr Henbant—

"Mae baw o bell yn well na pherl agos"; a thuedd dyn ymhob oes yw esgeuluso'r perlau sy'n gorwedd o fewn ei gyrraedd. A thyna ddigon o bregethu ar y pennawd hwn.

Wrth gadw ar gof draddodiadau a hynafiaethau bro ein mebyd yr ydym yn cyflwyno gwasanaeth dirfawr i'r byd yn gyffredinol; yr ydym yn ychwanegu at swm gwybodaeth. A ni yn unig, fel brodorion y rhanbarth hon o Geredigion, fedrwn ddod o hyd i'r wybodaeth hon.

Un tro, bu y diweddar

Dr. Zimmer,

yr ysgolor Celtaidd enwog o Berlin, yn aros yn Llandyssul i ddysgu Cymraeg fel y'i lleferid yn y gymdogaeth hon; siaradai a phawb, mynychai bob cyfarfod, dilynai'r cyrddau gweddi yn ffyddlon; a'r oll er perffeithio ei wybodaeth o iaith yr ardal. Gofynnai gwr dysgedig o'r lle iddo paham yr oedd yn pendroni fel hyn fore a hwyr o flwydd-yn i flwyddyn yn dysgu hen ieithoedd hanner marw. "O," meddai, "er mwyn gwybodaeth o ramadeg cymariaethol." Drwy gasglu ynghyd a chadw a chasglu hynfiaethau ein bro yr ydym yn helpu i gloddio un maen yn ychwanegol at adeilad mawr gwybodaeth ddynol; a thrwy hynny yn cynorthwyo i adael y byd yn well nag y cawsom ef—oblegid, 'nid byd, byd heb wybodaeth.'

Mae i fywyd Cymru wledig lawer rhagoriaeth i ymgyrraedd ati; nis gwyddom fawr am gelfau llun a lliw; mae cerfio syml mewn coed yn cael ei anghofio yn y wlad; mae gormod o gelfi parod yn ein tai; mae ein bywyd yn annaturiol ac afiach; disgwyliwn i'n hysgolion wella'r pethau hyn yn y cenedlaethau sydd i ddod. Nid yw ein miwsig mor iach ac ysgafn ac awelon ein bryniau; ac y mae'r caniadau a genir yn ein heisteddfodau yn llawer rhy drist a phruddglwyfus; olion yr hen Brotestaniaeth dywyll yw hyn; gwr llawen ei galon yw'r Cymro wedi bod drwy'r canrifoedd, fel dengys y Gododin a'r diareb-ebion Cymraeg, a llenyddiaeth ein cyfnod aur. Mae eisiau ail gyng-haneddu cân a bywyd yn ein hardaloedd gwledig Wrth fyfyrio ar hynodion y bywyd arweinir yn yr ardaloedd hyn y gellir hidlo'r aur

oddiwrth y sothach. Ac hyd yn oed o'r sothach, wrth ei daflu i ffwrnes y meddwl, gellir llunio priddfeini heirdd i godi muriau Plas Gwyddon.

Erys yr hen-iaith eto yn y tir; pery sylweddolion crefydd yn ein gwlad—nid oes oleuni fedr ladd y gwirionedd; mae gonestrwydd a symledd bywyd yn para i addurno

LLETHRAU CEREDIGION;

mae addysg yn taflu ei goleuni yn gryfach gryfach hyd ei bryniau; mae ei phlant yn dal eu llygaid gloewon ar y dyfodol, a'u dwylaw o hyd yn gafael yn nghadernid y gorffennol; mae Gobaith yn taflu ei gwawr i encilion tywyllaf ein gwlad; a chwedl wedi adnewyddu ei hieuenctyd yn gwyndeithio ymlaen yn hyderus i diriogaeth eang

CYMRU FYDD.

COLLI'R LLANW.

Deallodd yn fore gyfrinach yr eigion,
A heriodd y creigiau ag ysgafn-droed,
A chlywodd wahoddiad dihamdden y lasdon
Yn fiwsig ar draethell ei ugain oed.

Bu'n tramwy hyd erwau dilwybyr y glennydd
Yn hir o dan fendith ogleisiol y wawr,
A gwelodd gynddaredd y dymestl aflonydd
Yn gwynnu sandalau y clogwyn mawr.

Llamodd ei galon pan welodd ei hwyliau
Yn ysgwyd yn araf dan anadl y gwynt,
A chlywyd ei chwerthin yn adsain y cregiau,
Wrth ddisgwyl y llanw a chychwyn i'w hynt.

Gwelodd ogoniant ei ddydd yn y pellter,
Yn dod i'w gyfarfod o dòn i dòn,
A throes i encilion y traeth yn ddifater,
A sicrwydd y goncwest yn ymchwydd ei fron.

Ymgollodd yng ngwynfyd y gwymon a'r cregyn,
Fel plentyn diofal ar hafaidd hin,
A cherddodd yn dawel drwy arian yr ewyn
A'i hamdden garedig yn gân ar ei fin.

Gwelodd y llanw yn golchi y glannau,
Ac yntau yn llercian mewn cilfach ddihoen,
A theimlodd gynghanedd galwadau y tonnau
Yn nyfnder ei enaid yn felys-boen.

Dihunodd o'r diwedd o'i egwyl freuddwydiol
A chlywodd yr awel yn edliw ei fai,
Wrth ysgwyd yn esmwyth rhwng hwyliau direol
Y llestr adawyd ar ddistyll y trai.

Collodd ei gyfle, ac ofer yw cymell
Y llanw drachefn i'r greiglan oer,
Ni ddaw y fendith ond unwaith i'r draethell,
Ac ofer yw disgwyl wrth serch y lloer.

Pencader. EIRWYN.

GAIR O'R GADAIR GENEDLAETHOL.

Ar gais y Golygydd yr wyf yn myn'd i roi gair o 'mhrofiad i ddarllenwyr Yr Ymofynydd. Bydd fy ngyrfa farddonol o ddyddordeb mwy na dim arall yr adeg bresenol.

Anodd iawn i ddyn fod yn hollol eirwir a phlaen wrth adrodd ei helynt ei hun ; mae llawer wedi treio bod, ac wedi methu. Gwnaf fy ngoreu ; ni ddysgwyl neb ragor.

Yn gyntaf peth, nid wyf erioed wedi cymeryd fy hun o ddifrif fel bardd ; efallai mai ychydig goelia hyny. Yr wyf wedi cymysgu gormod a Saeson ac ereill i golli golwg ar y ffaith fod *bardd* yn fod mwy anghyffredin o lawer na myfi. Yr wyf yn wneuthurwr penillion gweddol lyfn a dirodres, dyna i gyd. Barddoniaeth ! o'r braidd yr wyf erioed wedi cyffwrdd ag ymyl ei gwisg.

Cyn belled ag wyf yn cofio, dyma'r ddwy linell gyntaf a wnes erioed, ar amgylchiad afiechyd hen gyfaill anwyl :—

" Mae Siams Gwmarch
Bron mynd i'w arch."

Yr oeddwn y pryd hwnw tua 10 neu 11 oed ; ac nis gellir dyweyd fy mod wedi hedfan yn uchel, hyd yn oed o gyw ieuanc !

Nid wyf yn cofio fy mod yn hoffi barddoniaeth o gwbl pan yn grwt. Credaf fod hyny i'w gyfrif i raddau pell am y ffaith y gorfodid ni i ddysgu darnau o'r *Deserted Village* yn

Ysgol Capel Cynon.

A sut y gallai crytiaid o blwyf Llanddyssul ddeall peth o'r fath ; heb ddim Saesneg na phrofiad o'r byd ?

Ond yr oeddwn yn grwt a'm pen yn y llyfyr er yn weddol ieuanc ; a llyfrau Cymraeg fwynhawn oreu hyd nes oeddwn tua phymtheg oed. Almanac y Miloedd a Thywysydd a Thrysorfa'r Plant, a Chaban F' Ewythr Twm ; dyma'm llyfrau, a'r Beibl wrth gwrs.

Dechreuais fy ngyrfa farddonol yn Ysgol Ramadegol y Ceinewydd. Ac fel hyn y bu ; ac nid gwirionedd celfyddydol mo'r peth, ond ffaith lythyrenol.

Yr oeddwn yn 15 oed, ac am fod yn ddyn ; ac un noson yn fy llety—yn nhy Pegy Dafis—gogyfer a'r Dolau, cnoais ddarn o ddybaco fflat morwr ; a meddwais. Ac yn y meddwdod hwn y dechreuais farddoni, i'm cyd-letywyr, i'r gath, i'r pentan—ac yn olaf i wraig y ty. Bu hyn bron yn achlysur i mi gael fy nhroi allan o'm llety ; ond cefais faddeuant.

Y wobr gyntaf ges am farddoni oedd pishin tair gan

Wr o Geinewydd

am ryw gân boliticaidd yn gwawdio ei wrthwynebwyr gwleidyddol ; yr oedd wedi addaw swllt ; ond nid ystyriai y gân yn fwy na gwerth tair ceiniog.

Cystadleuais gyntaf mewn eisteddfod yn Nhalgarreg ; yn stabal y Plas y cynhelid hi, a chefais haner y wobr am benillion i Lythyrdy newydd y lle ; Caregian druan gafodd yr haner arall. Wele un o'r penillion hyny :—

" Pe byddai angen trwydded
Ar ddyn i gario dryll,
Cyn dyfod y *Post Office*
Edrychai yn lled hyll ;
Rhaid myned i Llandyssul
Neu Aberaeron bell,
Neu 'fallai Gastellnewydd
Cyn byddai nemawr gwell."

Yn Ngheinewydd digwyddai fod amryw fechgyn yn yr ysgol oeddent yn hoff o gofleidio'r awen ; yn eu mysg un Hawen Rees, o Langranog, yn bresenol yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Ynys Môn. Iddo ef yn benaf yr wyf yn ddyledus am fy

ngwybodaeth o'r cynganheddion. Dylaswn hefyd grybwyll enw William James, dilledydd o Geinewydd; Caregian o Dalgarreg; a Jenkin Jones, yn awr o Brynaman; bu rhain o gymhorth ac ysprydoliaeth mawr i mi. Efallai fy mod mor ddyledus i Jenkin a'r un o honynt; rhoddodd ef i mi yr help o'r fath oreu; cofiai ac adroddai wrth ereill lawer o'r penillion a ganwn; ac nid oes dim eill oglais balchder bardd yn fwy na hyny.

Pan yn hogyn yn

YSGOL CEINEWYDD

meistrolais reolau barddoniaeth yn weddol lwyr. Wele un englyn i ysgolor o'r enw Dafis—gweithiwr diguro ar brynhawn cyn arholiad:—

Fagger heb fyth ddiffygio—yw Dafis;
Un dyfal, diflino;
Hwn fydd y penaf heno;
Uwch y rhes y dyrchir o."

Pan yn y Ceinewydd, bu Eisteddfodau y Groglith yn Llanarth o ddirfawr help i mi; oblegid cefais rai sylltau a pheth cyhoeddusrwydd ynddynt. Byth er hyny, mae genyf deimlad gwresog at bentref bychan athrylithgar Llanarth.

Pan yn Ngholeg Aberystwyth, bu'r delyn yn nghrôg am yn agos i dair blynedd; ac ychydig iawn o farddoni a fu yn ystod yr amser hwn. Anfonais gyfieithiad o ran o *Tennyson's* "*Brook*" i'r *College Magazine;* bu y Proffeswr Edward Edwards mor garedig a'i gywiro i mi; a chefais amryw eiriau caredig am fy ymdrech. Da oedd genyf gael y cyfle i ddiolch i'r Proffeswr yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiweddaf am ei gymorth caredig ryw ugain mlynedd yn ol.

Byth er hyn yr wyf wedi bod yn hoff iawn o gyfieithu; ac wedi dioddef geiriau heilltion gan fy nghyfeillion am beidio ceisio cerdded mwy ar draed fy hunan. Bu

MR. O. M. EDWARDS

gystal a chyhoeddi un o'm cyfieithiadau—o "*La Belle Dame Sans Merci*" yn ei chwarterolyn, *Y Llenor*, ac arall o "*The Wreck of the Hesperus*" yn *Nghymru'r Plant*. Yr wyf yn ddyledus iawn i "O.M." am ei gefnogaeth a'i sylw, fel y mae llawer o lenorion gwledig Cymru.

Am ddwy flynedd yn unig o'm hoes y bum allan o wlad fy ngenedigaeth; ac yn nhref fawr Seisnig ac anfarddonol Southampton y tyfais i lawn dwf fy ngwladgarwch Cymreig. Ofnaf i mi astudio mwy o lenyddiaeth Gymreig yno nag o *Mathematics* a *Physics*, a *Chemistry;* er nad wyf yn sicr ei bod yn edifar genyf. Buaswn yn uwch fy nghyflog pe wedi cadw at Wyddoniaeth a gado'r Awen; ond wedi'r oll, mae cariad yn fwy nag aur—chwedl y *Penny Novelette*.

O Loegr symudais i Ysgolion Canolradd Cymru; ond ni chynyddodd fy nhân Cymreig; i'r gwrthwyneb ofnwyf iddo oeri i raddau dan ddylanwad y diluw o Seisnigyddiaeth oedd yn tori ar ein gwlad yr adeg hono. Bum bron anghofio crybwyll fy nyled i *Gelt Llunden* am ei barodrwydd gwresog i gyhoeddi pob dim a anfonwn iddo yn Gymraeg a Saesneg; barddoniaeth a rhyddiaeth; drwg a da. Mae llawer o ddwrdio ar y papurau Cymreig; ond caiff llawer llenor gwan fagwrfa gynes yn eu colofnau croesawus. Lladd y gwan a meithrin y cryf yw arwyddair llawer cyfnodolyn; ond pwy a wŷr na ddaw'r gwan yn gawr nerthol ryw ddydd? Mae'n digwydd felly weithiau—er nad yn fy achos i.

Pan yn Merthyr, bu y diweddar Barch. Hathren Davies garediced a thaflu colofnau

YR YMOFYNYDD

yn agored i mi; ac iddo ef a'r diweddar Barch. William James, Llandyssul, y mae pwyth nas medraf byth ei dalu mwyach. Eu geiriau calonogol hwy, a beirniadaeth werthfawrogol y Parch. R. J. Jones, Aberdar, a chanoedd darllenwyr YR YMOFYNYDD—sydd wedi fy ngwneud yr hyn

ydwyf fel ysgrifenydd. Hyny o feddwl bychan sydd genyf, medraf ei fynegu yn weddol rwydd a digloff erbyn hyn, diolch i'r ymarfer a gefais drwy wneud arbrofion ar dudalenau'r cyfnodolyn bychan hwn.

Ni chystadleuais ryw lawer; ond cynygiais yn amlach o ddigon nag yr enillais. Syrthiodd

CADAIR ABERTEIFI

i'm rhan yn 1901; ond drwy fy esgeulusdod yn cam-ddeall y rheolau, aeth yr anrhydedd i'r ail-oreu. Rhoddais y gadair i fyny ar unwaith wedi i mi ddeall fy mod wedi ei chymeryd ar gam. Os wyf yn cofio'n iawn, dwy noswaith o ysgrifenu a gostiodd pryddest Aberteifi i mi. Y mae'r rhwyddineb hwn wrth ganu ar y mesurau rhyddion wedi costio llawer i mi. Yr wyf yn barod i ruthro yn mlaen fel modur-gerbyd heb gym'ryd amser i edrych ar y wlad oddiamgylch. Ychydig amser yn ol ysgrifenais bryddest am y goron genedlaethol yn rhwydd mewn tua phythefnos—a hyny wrth helpu ryw blentyn gwledig i fyned yn ei flaen ar lwybr dyrys llenoriaeth.

Yn awr yr wyf yn dyfod at y rhan olaf a serthaf o'r llwybr i'r Gadair Genedlaethol. Fel dywedais eisoes mae genyf grap ar y mesurau caethion er pan yn un-ar-bymtheg oed; yr wyf wedi bod yn hoff iawn o efelychu Ceiriog ac ereill drwy roddi ambell glec cynghaneddol mewn penillion rhydd; ond hyd tua phum mlynedd yn ol, ychydig a gyfansoddais yn ol dull a defawd Dafydd ap Edmwnt. Yn wir arferwn dybio'n onest a dweyd yn rhydd wrth fy nghymdeithion llenyddol, na fedrwn wneud awdl pe cawn fil o bunau am y gwaith. Erbyn hyn mae fy Awen yn euog o ddwyn pedair o honynt i fodolaeth, ond fod tair o honynt wedi eu geni'n farw!

Bedair blynedd yn ol testun Cadair Llunden oedd "Gwlad y Bryniau"; a th'rawodd yn fy mhen gyfansoddi ychydig englynion ar y testun. Aeth yr ychydig linellau dechreuol yn gant ac yn ddau—ac yna dechreuais chwilio cynllun, a chedwais ato, er mawr rwystr i'r tipyn ysprydoliaeth oedd genyf ar y dechreu. Ymhen rhai wythnosau yr oeddwn wedi gorphen rhyw fath ar awdl, er fy nirfawr syndod.

Cefais well beirniadaeth nag a ddisgwyliaswn; er fod ynddi feiau fil. Yn wir dyfynwyd rhai cwpledau o honi fel darnau go lew; wele un:

> "I'r gwr o hen Gymru gain
> Gwagder yw llawnder Llundain";

ac un arall am ffumerau Gwent:

> "Simneiau llwyd gwyd ar goedd
> Eu ffroenau o'r dyffrynoedd."

Un fantais fawr o gystadlu yn Llunden fu cael beirniadaeth fanwl a miniog y

PROFF. MORRIS JONES.

Cefais yr awdl yn ol wedi ei marcio o'r dechreu i'r diwedd, a nodiadau gramadegol yn ei britho ben-bwygilydd. Ni feddyliaswn hyd yn hyn fod fy Nghymraeg mor sigledig; ond penderfynais wella.

Penderfynais eto gynyg ar awdl "Yr Haf" yn Ngholwyn Bay (1910). Fel y gwyddis, i'r Eisteddfod hon y danfonwyd awdl anfarwol y bachgen ieuanc R. Williams-Parry, M.A.; yn ddiameu hon yw yr awdl oreu yn yr iaith Gymraeg. Nid i esgusodi'r ffaith fy mod wedi colli yr wyf yn dweyd hyn, ond i ddatgan fy edmygedd o awdl Williams-Parry, a chyfeirio ati sylw darllenwyr YR YMOFYNYDD.

Cefais feirniadaeth dda iawn ar fy awdl yn Ngholwyn Bay, yn enwedig gan Berw, yr hwn a ddywedai mai "gorchwyl difyr fu ei darllen," a sonia cyn y diwedd am "yr awdl hudolus hon." Chwerddais pan ddarllenais feirniadaeth Dyfed, yn dweyd "fod awdwr yr awdl hon yn canu yn hollol rwydd a di-drafferth!"

DRUAN O DYFED,

ychydig feddyliai faint o grwydro hyd fynyddau Gwent wnaethum cyn cael o hyd i aml englyn, sawl pibed o 'baco gostiodd llawer llinell lefn i mi, a sawl pen tost gefais uwch llawer cwpled esmwyth.

Yn Ngwrecsam y llynedd y testyn oedd "Y Mynydd," ac o herwydd prysurdeb gwaith yr ysgol, methais gael nerth nag ysbaid i barotoi dim hyd ddiwedd Mai. O hyny hyd ddiwedd Mehefin clytiais at ei gilydd ryw fath ar awdl. Defnyddiais rai llinellau o'm awdl i'r "Haf," a darnau helaeth o'm cyfansoddiad i "Wlad y Bryniau" wrth osod yr awdl hon wrth ei gilydd; efallai fod genyf ryw ddau neu dri chant o linellau newyddion heblaw'r hen dameidiau. Cefais fy ysgrafellu yn o arw gan y Proffeswr hylym o Fangor; ond penderfynais fanteisio ar y driniaeth. Erbyn hyn yr oeddwn wedi dod i wybod yn o lew yr hyn *na ddylid wneud* wrth gyfansoddi awdl. Ac y mae'r beiau gwaharddedig yn gynifer fel mai anodd cymryd cam heb fod yn euog o un neu ragor o honynt.

Wele agoriad beirniadaeth Berw ar fy awdl (!) i'r "Mynydd" :—"Awdl farddonol, ddarllenadwy, wedi ei chynghaneddu'n rhwydd, naturiol, a newydd. Pleser yw darllen cyfansoddiad fel hwn. * * * Ond nid yw'r gân yn uniongyrchol ar y testun." "Rhwydd a naturiol" yn wir! Os yw beirdd yn cael cymaint ffwdan a mi i wneud eu cywyddau yn rhwydd a naturiol, nid rhyfedd fod cynifer o honynt yn marw'n ieuainc!

Dechreuais awdl

"Aelwyd y Cymro"

tua chanol Mawrth eleni. Llafuriais yn galed aruthr wrthi am tua mis neu ragor; yr oedd yn dyfod allan fel triagl o lestr, yn weddol rwydd ar y cyntaf, ond araf ofnadwy fel yr awn yn y blaen. Yn wir y mae llawer ohoni heb ddyfod o'r llestr eto! Siomedig iawn oeddwn pan yn ysgrifenu'r copi gorffenedig ohoni; yr oedd mor bell o gyraedd y safon osodaswn o fy mlaen. Wedi'r ymdrech galed i gyd—*I was thoroughly disgusted with it!* Ac yr oedd dros gan' llinell dan yr hyd arferol; goreu i gyd oedd hyny, debyg iawn!

Nid oeddwn ond gwan freuddwydio enill y Gadair. Gwn fod rhai darnau o'r awdl yn lled gryfion, ac ereill yn weddol syml a swynol. Cenais yn rhesymol deimladwy, ac agos, a dirodres o'r dechreu i'r diwedd. Gallsai hen wraig fy mam ei deall yn rhwydd; er engraifft,

"Mae hen dy yn min y dòn—ar oror
Arw Cymru weithion
A'i wal bridd yn adfail, bron,
A'i loriau yn falurion.
Hen dy fy nhad, hafan yw
Ry' nawdd i'r morfrain heddyw."

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r awdlau diweddar mae'r iaith yn syml a chartrefol o'r dechreu i'r diwedd. Dyna ragoriaeth y gerdd, a dyna ei gwendid. Fel y dywedodd y beirniaid, nid oes iddi ryw gynllun gwych; dilyn fy mympwy farddonol a wnes yn lle canlyn rheolau celf. Swm a sylwedd yr holl gân yw adgof bore oes ar aelwyd fy nhad :—

"Gwin a gawn yn nawn ein hoes
O rawnwin bore einioes."

Y mae ar y gwaith lawer o feflau, ond y mae fy ngoreu ynddo; ac nid yw yn debyg y gwnaf ei well byth, yn maes y mesurau caethion. Nid wyf yn gredwr cryf mewn cystadlu; nid ar faes yr Eisteddfod y tyf blodau anfarwol y genedl. Da yw, er hyny, ein pwyso a'n mesur er mwyn i ni gael adnabod ein hunain.

Wedi tyfu allan o athrofa'r Eisteddfod y dylai llenor wneud ei brif waith. Wedi'r ymarfer ar y maes cystadleuol, dylai fod yn gryf, a hyf, a hoew i wrteithio meddwl ei genedl ar ddolydd eang llenyddiaeth.

Gwaith! gwaith! gwaith!! dyna'r *secret* fawr o hyd.

Bydd Hyf,

a dyna'r hyn arwain i lwyddiant

mewn llên a chariad, yn ol Heine. Os gwrthodwyd di gan y llaethferch yn y cae, rho gynyg i ferch dy feistr yn y parlwr—ac o byddi ddigon beiddgar, ond odid na lwyddi. Os collaist yn Eisteddfod Tregroes, treia yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, ac os gwnai dy oreu, efallai mai tydi fydd y buddugol.

"SARNICOL."

BARDD CADEIRIOL, 1913.

Galwodd Bardd Cadeiriol Eisteddfod Genedlaethol Abergafenni ei hun yn "Sarnicol" er cof am y ffermdy bychan y ganwyd ef ynddo gerllaw Capel Cynon rhwng Ceinewydd a Llandyssul lai na deugain mlynedd yn ol. Ar fin rhos yr Hafod, a'r Hafod hono hithau yn codi mawn a'i losgi gan belled y tren, yn ngolwg cors a gwaen y ganwyd arwr Cadair y Fenni; yno y magodd ei dad a'i fam deulu a phump o blant ynddo a "Sarnicol" oedd yr ieuenga' ond un o honynt. Efe heddyw yw yr enwocaf o'r brodyr—un chwaer oedd ganddo a bu hithau farw'n ddiweddar a'i thad a'i mam yn byw i alaru ar ei hol, gyda'r mab i'anga yn Bryn Cerdin. Yno yr ymgartrefa Sarnicol hefyd yn nyddiau gwyl ei ysgol. Os bwriodd neb awr gyda "Sarnicol" ar ei aelwyd ar ei wyliau ni synodd hwnw ddim pan glybu enill o hono ar "Aelwyd y Cymro" yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae yspryd yr aelwyd hono yn nghalon y bardd, ac mae yspryd barddoniaeth yn nghalon ei deulu. Gall ei dad a'i frodyr ganu cân gartrefol dda—ond yn "Sarnicol" ei hun y ceir y gallu a'r diwylliant i ganu cân cadair Eisteddfod. Nid oes dim doniolach na'r hyn ysgrifenodd Sarnicol ei hun yn YR YMOFYNYDD ar ei ymgyrchion cynar wrth gystadlu a breuddwydio am lwyddiant a gwobr a chlod ac anrhydedd a'r siom pan gollodd. Dyma ddydd ei ogonedd wedi dod, ac ni lawenychodd neb yn fwy erioed na'r rhai sydd yn adnabod y bardd yn dda. Nid dyma'r gadair gyntaf iddo enill, er mai hon yw'r gyntaf iddo enill yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu yn nghylch cyfrin y goreuon o'r blaen, ond yr oedd yno un trech nag ef; awgrymai rhai o'r papurau dyddiol fod buddugoliaeth Sarnicol wedi peri syndod, ond nid oedd hyny yn ddim ond anghydfarwyddid gwyr y Wasg. Disgwyliai'r cyfarwydd weled Sarnicol yn fuddugol yn fuan yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n wir mai yn mro'r Telynegion yr edwyn y gwir feirniaid ef fel un yn tra rhagori. Nid yn aml yr unir bardd a gwyddonydd, ond gwneir hyny yn Sarnicol ac nid yw darfelydd y bardd yn ol i sylwadaeth y gwyddonydd ynddo. Mae'n gyfarwydd hefyd a chaneuon beirdd diweddar Ffrainc. Ymddengys llawer o'i gynyrchion yn YR YMOFYNYDD, a bu am ysbaid yn cydolygu y misolyn hwn.—o'r "*Welsh Gazette*."

WELE FEIRNIADAETH DYFED AR YR AWDL FUDDUGOL :—

"ALLTUD"—Awdl dyner, felus, ac o nodwedd delynegol yw hon. Mae'r iaith yn lân, y meddyliau'n glir, y gynghanedd yn gref, ac yn berffaith naturiol. Cymer y bardd ei

safle allan o'i wlad, yn nghanol dwndwr a therfysg masnach yn mysg cenhedloedd eraill. Ond y mae delw'r hen aelwyd yn ddwfn ar ei galon, a'i gariad yn angerddol at ei hen gartref Cymreig. Dyry le mawr i adgofion, a dyna sydd yn cyfrif am yr eneiniad sydd ar y gân. Teimlir fod llawer cwmwl tawel o hiraeth yn bwrw ei gysgod drosti, a cheir ynddi lawer deigryn gloew fel gwlith ar flodau yn eu llawn dwf. Y mae yma ddyfnder o dynerwch, a phrydferthwch hwyr-ddydd haf yn aros ar ranau helaeth o'r awdl. Teimlir fod calon y bardd, a chalon ei destyn, yn curo yn gynes yn ei gân. Nid oes yma ddim ymgais anheg am effaith, nac un cysgod o efelychiad o neb mewn arddull na meddwl. Canodd y bardd hwn fel efe ei hun, a llwyddodd i lanw ei awdl a chariad pur, heb greu rhianedd dychymygol i roi min ar ei serch. Gwyn ei fyd. Nid oes yma ddim rhodres na mursendod, ond bardd di-ymchwydd yn dyweyd ei brofiad yn naturiol, a thrydan awen fyw yn ei holl frawddegau. Unig fai yr awdl yw nad yw yn gyflawn. Mae llawer o gyfoeth ei destyn heb ei gyffwrdd, a rhanau eraill o hono wedi eu cyffwrdd yn ddigon ysgafn. Gallasai aros yn hwy, a chloddio'n ddyfnach ar ambell bwynt, a phrysuro heibio pethau llai eu pwys heb golli amser. Bid sicr anodd fuasai dihysbyddu'r pwnc mewn awdl mor gyfyngedig, ond hyny o faes a gymerodd y bardd iddo ei hun, y mae wedi ei drin yn rhagorol. Y mae genym lawer o ddyfyniadau wrth law—gormod i'w cyhoeddi mewn beirniadaeth fel hon. Bydd ychydig yn ddigon i ddangos yspryd yr awdl—

"Ardalwyr mewn hyfrydoledd—fin [hwyr,
Fwynhant eu gorhoffedd ;
O dwrf byd mewn hyfryd hedd— [llunio'n llon
Eu Mabinogion mae meib unig- [edd."

Condemnir "meib" fel lluosog am feibion gan ddysgeidion diweddar, a diau eu bod yn iawn. Ond hawdd maddeu i'r gair diniwed mewn llinellau fel hyn.

"Rhued môr a gwaedded gwynt
Bloeddied, cured y corwynt
A'i holl nerth ar bebyll nos,
Doed a'i oernad hyd hirnos,
Y mawn gawn yn fflamio'n goch,
Er adgas hîn mae'n wridgoch ;
Treigled, anesmwythed môr
Ar hirfaith greigiau'r arfor ;
Rhued o boen o'r du bair,
Ein hwylusdod ni lestair."

Mae'r môr yn ngwrs blynyddoedd yn gwneyd hafog ar y glanau, a'r hen dy a'i lawnt yn cael eu golchi i ffwrdd—

"Lleibio'r oll le bu'r Allor—i Dduw Heddyw wna'r llydanfor ; [Nef
Lle bu'r mawl mae llwybr y môr,
Ac ynfyd dwrf eigionfor.

Na yr Allor ni ddrylliwyd—ei chref- A'i ffydd ni ddiffoddwyd ; [ydd
O encilion calon cwyd—yn ddi- [dawl,
Y tyner wawl a rodd tan yr ael- [wyd."

Hen wrolion y mynyddoedd—

—"Hedd pob aelwyd
I gyd a brynwyd a gwaed eu bronau."

Yr iaith—

"Yr hen iaith arni weithion—sy'n [parhau
Er rhwystrau yr estron ;
Gwelydd wrthsaif pob galon
I'r Gymraeg yw muriau hon.

Diddan iaith aelwyd ddi nod—iaith Athrofa plentyndod ; [ryfedd
Dynera iaith dan y rhod,
Iaith anwyl hen fythynod."

"Iaith aur y llenor, iaith hir ei llinach,
Iaith dlos barddoniaeth adlais beirdd hynach,
Deg iaith na bu dy goethach—iaith aelwyd

Y bwth y'm ganwyd, ba iaith amgenach."

Haelfrydedd a lletygarwch—

"Mewn oer nych yn edrych am—ei [damaid,
Dyma blentyn byrgam;
Gwael ei dwf, gwelw a di-fam,
Doed i mewn, caiff dad a mam."

Dylanwad parhaol yr aelwyd—

"Byw ar hafan boreufyd,
A'u braint mewn henaint o hyd."

"Gwin a gawn yn nawn ein hoes
O rawnwin boreu einioes."

Mae'n brofedigaeth dal ati i ddifynu, ond rhaid gadael ar hyn. Er nad yw maes yr awdl yn eang, y mae wedi ei wrteithio mor dda, fel y mae yn dlws odiaeth. Credwn yn ddibetrus mai hon yw yr awdl oreu yn y gystadleuaeth, a'i bod yn deilwng o'r Gadair, a phob anrhydedd perthynol iddi.

DYFED.

CYFARFODYDD BLYNYDDOL CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymraeg yn Nghribyn ar y 7fed a'r 8fed o Awst. Yr oedd yr oll o weinidogion ein heglwysi Cymreig yn bresenol, yn nghyd ag amryw y tu allan i gylch y gymdeithas; a daeth cynrychiolaeth ardderchog yn nghyd o'r oll o'n heglwysi yn Ngheredigion, ac o amryw o'n heglwysi yn Morganwg—o'r sir olaf, gwelsom nifer liosog o Gellionen, Rhondda, Aberdâr, Dowlais, a manau ereill. Dechreuwyd y gyfres cyfarfodydd nos Iau yn y capel; ond gan fod y capel lawer yn rhy fach i gynal y dorf ddaeth yn nghyd dydd Gwener—bernid fod o gylch 500 o bobl yn bresenol—cynhaliwyd y gwasanaethau ar faes ger llaw y capel. Cafwyd hin neillduol o ffafriol, fel yr oedd pawb yn mwynhau'r amrywiol wasanaethau yn yr awyr agored. Hefyd, gwnaeth cynulleidfa y Cribyn eu rhan yn ardderchog i roesawu y dieithriaid, a chyflawn haeddent y ganmoliaeth roddid iddynt gan yr ymwelwyr yn gyffredinol. Yr oedd pob peth, mewn gair, yn cyd-weithio i wneud y cyfarfodydd yn nodedig o lwyddianus.

Y Gwasanaethau.

Am bump o'r gloch nos Iau, cynhaliwyd y pwyllgor arianol yn y capel. Parotoi ar gyfer y pwyllgor boreu Gwener oedd amcan y pwyllgor hwn.

Dechreuwyd y gwasanaeth nos Iau am 6.30. Awd trwy y rhan ddefosiynol gan y Parch. E. Glyn Edwards (B.), Capel Seion a Brynhafod; a phregethwyd gan y Parch. J. Carara Davies, Cefn, ac E. T. Evans, Aberdâr.

Am naw o'r gloch boreu Gwener cynhaliwyd pwyllgor y gymdeithas yn y capel, dan lywyddiaeth yr Islywydd, y Parch. E. O. Jenkins, Llwyn. Ceir adroddiad o weithrediadau'r pwyllgor mewn colofn arall.

Am 10.30 dechreuwyd y gwasan-

aeth gan y Parch. J. Davies, Allt-yplacca ; a phregethwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdâr. Da oedd gan bawb ei weled a'i glywed. Er wedi ymneillduo o'r weinidogaeth er's cryn amser, eto, mae ei ddyddordeb yn yr achos mor fyw, ei lais mor soniarus, a'i sylwadau mor afaelgar ag erioed. Ar derfyn y gwasanaeth dywedwyd gair o groesaw i'r ymwelwyr o eglwysi Morganwg gan weinidog y lle, ac atebwyd drostynt gan L. N. Williams, Ysw., Y.H., Aberdâr. Yn nghwrs ei anerchiad pwrpasol a dyddorol, anogodd yr Undodiaid, yn enwedig y bobl ieuainc, i fod yn ffyddlon i'r achos.

Parch. E. GWILYM EVANS, B.A.,
Dukinfield.
Llywydd y Gymdeithas.

Dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn gan y Parch. T. A. Thomas Llandyssul. Yna traddododd y Llywydd, y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield, ei anerchiad wrth roi ei swydd i fyny. Dewisodd fel ei destyn 1 Tim. iii. 15, "Eglwys y Duw byw, colofn a chynhaliad y gwirionedd." Ar y terfyn, cynygiwyd ac eiliwyd pleidlais o ddiolch iddo am ei wasanaeth a'i anerchiad gan y Parchn. R. J. Jones, M.A., a J. Davies. Nid oedd y ddau yn hollol gyduno â'r oll o sylwadau Mr. Evans. Ceir yr anerchiad yn y rhifyn hwn. Ar ei ol, pregethwyd gan y Parch. Simon Jones, B.A., Abertawe.

Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. E. O. Jenkins ; a phregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, Rhondda, a D. G. Rees, Gellionen. Cyn terfynu'r cyfarfod hwn, diolchwyd i gynulleidfa Cribyn am eu croesaw gwresog a'u darpariadau ar gyfer y dieithriaid gan y Parchn. T. A. Thomas ac E. O. Jenkins ; ac i'r gynulleidfa oll am eu presenoldeb a'u cyfraniadau gan weinidog y lle.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaethau, hefyd, gan y Parchn. R. C. Jones, Llanbedr ; L. Williams, Rhydygwin ; a B. Carolan Davies (A.), Ty'ngwndwn.

Heblaw y gweinidogion a enwir uchod, yr oedd yn bresenol hefyd y Parchn. J. Tyssul Davies, B.A., York; E. E. Jenkins, Walmsley ; J. J. Jones, B.A. (A.), Llanelli; a Mr. Ben Davies, Coleg Caerfyrddin.

Y PWYLLGOR BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd Pwyllgor Blynyddol y Gymdeithas yn Nghribyn Awst 8fed, 1913, yr Is-lywydd, y Parch. E. O. Jenkins yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y pwyllgor blaenorol, a phasiwyd cyhoeddi y fantol-len ar ol ei harchwilio.

Darllenwyd adroddiad yr ysgrifenydd, a phasiwyd ei gyhoeddi yn yr YMOFYNYDD.

Ar ol clywed fod yn mryd pobl Llandyssul i adeiladu Ysgoldy at eu gwasanaeth, pasiwyd fod y gefnogaeth oreu yn cael ei roddi iddynt i adeiladu neuadd ddigon eang i gynal ein Cymanfa Ganu ynddi, a chymeradwywyd yn wresog yr apel i sylw goreu yr holl eglwysi.

Ar ol i Olygydd YR YMOFYNYDD ddadgan ei ddymuniad i gael ei rydddau o'r gwaith ar ddiwedd y flwyddyn, gwnawd apel ar iddo barhau yn ei swydd am flwyddyn arall.

Derbyniwyd adroddiad y Pwyllgor Arianol, yr hwn oedd fel y canlyn :—
£10 i Drysorfa y Llyfr Tonau ac Emynau ; £10 i weinidog y Ciliau,

a £5 i weinidog Capelycwm; £5 at yr achos yn Mhanteg; £2 yr un i Caeronen a Chapelycwm at wasanaethau neillduol (ar amodau); £1 1s. yr un i'r *British and Foreign* a'r *National Conference;* £12 i Olygydd yr YMOFYNYDD.

Etholwyd yr un Pwyllgor Arianol ag o'r blaen, ac ychwanegwyd atynt Mr. J. R. Thomas, Pontsian.

Etholwyd yr un aelodau ar y Pwyllgor Cynghorol, ac hefyd ar Bwyllgor Coleg Caerfyrddin.

Penodwyd Dr. D. J. Davies, B.A,, Aberystwyth, yn ysgrifenydd Cymdeithas Addysgol y Bobl Ieuainc.

Gadawyd lle cynal y cwrdd nesaf yn nwylaw yr Ysgrifenydd.

Pasiwyd y penderfyniad canlynol mewn perthynas i'r Llyfr Tonau ac Emynau:—(1) Fod pwyllgor yn cael ei benodi, cynwysedig o un cynrychiolydd o'n heglwysi Cymreig. (2) Fod y pwyllgor yn gyntaf i fyned trwy y rhestr o'r tonau sydd eisoes wedi eu danfon gan yr eglwysi i'r Ysgrifenydd, a dethol y goreu, ac ychwanegu atynt fel y gwelont yn dda. (3) Fod y pwyllgor, ar ol gwneud hyn, yn penodi Golygydd neu Olygwyr Cerddorol i ddwyn allan y llyfr mewn cydweithrediad â Golygydd yr Emynau.

NODYN.—Byddai yn hwylusdod i gario y gwaith yn y blaen pe y dosberthid y pwyllgor i ddwy ran, un rhan yn gynwysedig o gynrychiolwyr eglwysi Morganwg, a'r llall yn gynwysedig o gynrychiolwyr eglwysi Ceredigion, a'r ddwy adran i gydweithio yn y dull y barnant yn oreu.

ANERCHIAD Y LLYWYDD.

"*Eglwys y Duw byw, colofn a chynhaliad y gwirionedd.*"—*1 Tim. iii. 15.*

Pe bae ffawd (neu anffawd) yn dyfod ar fy ffordd rhyw ddydd, ac yn fy ngwneuthur yn oludog, ac fod dyhead yn codi ynof i adeiladu addoldy—lle i addoli yr Anfeidrol—ar fy nghost fy hun,

WYDDOCH CHWI BETH FYDDAI ENW Y DEML?

Nid Eglwys Undodaidd, nid Eglwys Wladol, nid Eglwys y Bedyddwyr, nid Eglwys yr Annibynwyr, ond "Eglwys y Duw byw." Yr oedd Dr. Martineau yn arfer dyweyd fod pob Undodwr oedd yn rhy wan i gyffesu ei Undodiaeth yn "coward." Ond dywedai Martineau—ac hefyd Channing o'i flaen - na fedrai addoli nac aelodi mewn Eglwys Undodaidd, hyny yw, Eglwys wedi ei sylfaenu ar dduwinyddiaeth yn unig—er mai duwinyddiaeth Undodaidd ydoedd. Nid credo derfynol yw sylfaen eglwys i fod; nid gwirionedd, eithr ymchwil am y gwirionedd. Gwyr rhai o honoch fod nifer fechan o honom yn y weinidogaeth Undodaidd yn ymladd yn galed dros yr egwyddor nad ydyw yn gyd-unol ag yspryd ein tadau, eithr yn wrthwynebol i ysbryd goreu y mudiad Undodaidd i gyfyngu muriau ein heglwysi i un ffurf o dduwinyddiaeth. Gwel rhai ynom "ffyliaid," eraill, efallai, "geidwadwyr y goreu beth." Ond ein dadl ni yw hyn—pa le bynag mae eglwys wedi ei hadeiladu ar yr "*open trust*," heb *dest* na chredo, na ddylai'r *label* Undodaidd gael ei roi ar y cyfryw eglwys. Etifeddiaeth rydd—mor rhydd a gwynt y nefoedd—yw'r etifeddiaeth. Rhaid i ni ei chadw yn rhydd—ie, yn rhydd i ddadblygu i rywbeth gwell, neu i ddirywio i rywbeth gwaeth, na'r hyn a elwir yn Undodiaeth. Yr oedd ein tadau yn ddoethach na ni yn y mater hwn. Boddlon oeddent hwy ar enwau lleol. Nid oeddynt yn awyddus fel siopwr i ddangos ei *goods* i gyd yn y ffenestr. Capel Alltyplacca, nid Alltyplacca *Unitarian Church*; capel Pantydefaid, nid Pantydefaid *Unitarian Church* ac *Unity Hall.* Y mae yn anhawdd rhoi ar ddeall i bawb bwysigrwydd yr egwyddor orwedda odditan y pethau bychain hyn. Os ydyw ein heglwysi ni yn sir Aberteifi yn proffesu bod

yn "Eglwysi y Duw byw," rhaid iddynt sefyll dros rywbeth gwell nag unrhyw ffurf ddiflanol o syniadau duwinyddol am Dduw a Christ a dyn. Iawn, yn ol syniad y Bedyddwyr, yw gwneuthur Bedydd yn brif *dest*, canys Eglwys y Bedyddwyr ydyw. Ond pa fusnes i ni, heb un gredo na seremoni awdurdodedig, ni etifeddion rhyddid, i ddyweyd—dyma ni wedi cyrhaedd perffeithrwydd mewn syniadau, gosodwch y *label* arnynt ar unwaith ac am byth; we have reached finality; we are as gods. Yn ddiameu y mae duwinyddiaeth yn cael gormod o le yn eglwysi Cymru yn gyffredinol. I Epistolau Paul y telir y sylw, ac nid i ddywediadau Iesu. Yn eglwys fechan dlws Llangeitho y Sul diweddaf sylwais am y tro cyntaf erioed nad oes son am fywyd Iesu Grist yn Nghredo Nicea—y *Nicene Creed*. Dywed y gredo fod Crist wedi ei eni, ac yna ar unwaith dywed ei fod wedi marw. Duwinyddol, ynte, ydyw ei dyddordeb. Felly, hefyd, am eglwysi Cymru. Ond ein gwaith ni fel eglwys yw, nid crafu a beirniadu eglwysi ereill byth a hefyd, nid dyweyd fod hwn a hwn o bregethwr yn Undodwr dirgel—ar y *sly*, nid gweddio am yr awr amhosibl ac anymunol pan fydd pawb yn Undodiaid, ac yn Undodiaid tebyg i chwi a minnau, nid grwgnach ein bod ni yn hau yr hâd ac eraill yn ei fedi, fod ein gelynion yn lladrata ac yn gwisgo ein dillad tra yr ydym ni yn ymolchi. Digon i ni gadw pyrth ein heglwysi yn lled agored; digon i ni gadw yn nghŷn y tân ar ein hallorau; digon i ni chwilio am y gwirionedd, ac nid ymffrostio yn y gwirionedd. Dyma, ynte,

Un o nodweddion "Eglwys y Duw byw"—

absenoldeb enwau a chredoau—ie, a *notice boards*—sydd yn awgrymu sectyddiaeth, enwadaeth, erledigaeth, a gwahaniaethau,—parodrwydd i gydnabod fod crefydd bur a dihalogedig yn gyffredin beth yn yr eglwysi a thu allan i'r eglwysi, gan nad o ba natur bynag fydd duwinyddiaeth y cyfryw eglwysi. Byddwch, un ac oll, os yn dewis, yn Undodwyr; byddwch yn falch o'r ffaith, os ydyw Undodiaeth yn golygu nerth a mwyniant a chalondid i chwi. Mae'r enw, o bosibl, lawer yn rhy urddasol i lawer o honom. Ond nid yw yn enw priodol ar "Eglwys y Duw byw," mwy nag unrhyw enw duwinyddol arall. Glynwch wrth yr hen enwau anwyl—enwau di-dramgwydd, enwau sydd yn gwahodd yr enaid sydd yn chwilio am ei Dduw. Dydd marwolaeth duwinyddiaeth yn Nghymru fydd

Dydd genedigaeth crefydd Iesu Grist.

Wn i ddim beth yw profiad fy nghyd-weinidogion sydd yn bresenol yma heddyw; ond yr wyf fi wedi cael digon ar y dwymyn dduwinyddol yn y pwlpud ac allan o'r pwlpud. Yr wyf, er hyny, yn gwella; ac yr wyf yn awr bron bod yn holliach. Clywais bregethwr nos Sul diweddaf —pregethwr hyawdl a galluog iawn —yn traethu am awr gyfan ar "berson Crist." Pe bae pob peth ddywedodd yn anffaeledig wir—yr wir iddo ef a'r gynulleidfa—pa leshâd ydoedd i'm henaid gwan i? Hwyliai'r pregethwr yn brydferth dros wynebpryd y môr duwinyddol, ond nid anturiodd i lawr i'r dyfnderoedd, lle mae bywyd pob dyn yn guddiedig gyda Christ yn Nuw. Cerig calch yw credoau—Undodaidd a Thrindodaidd; ellwch chwi ddim byw arnynt. Rhaid cael bara'r bywyd a'r gwin nefol i'n cynal. Ai nid fy mhrofiad i y nos Sul diweddaf yw profiad y dieithriaid sydd yn mynychu ein heglwysi ni yn aml iawn? Beth sydd gyda ni, bregethwyr, i gynnyg iddynt? Ai "*The latest German philosophy*," neu ryw wirionedd bychan wedi ei guro i fodolaeth ar eingion ein profiad ni ein hunain? Ai pregeth i wrthbrofi rhyw hen osodiad neu hen sefydliad am ei fod yn hen? neu ryw adsain felus

o'r byd ysprydol—"*where beyond earth's voices there is peace.*" Ai nid doeth fyddai i bregethwyr "Eglwysi y Duw byw" losgi eu hesboniadau a'u cyfrolau o bregethau, a threulio mynych awr gyda'r Beibl a Shakespeare, Browning a Tennyson, Wordsworth a George Eliot,—gyda'r meddyliau mawr a'r calonau mawr. Gyda'r cyffelyb y mae dwfr y bywyd; llaw yn llaw â'r cyfryw y medrŵn ddehongli'r galon ddynol—i lawr o galon fawr yr Iesu at galon y truan yn nghell y carchar yn disgwyl clywed y gloch a'i geilw yn fyw i'w fedd. Nid dysgu dynion beth i wneud a pheth i beidio wneud yw gwaith penaf pwlpudau "Eglwysi y Duw byw," ond rhoddi i eneidiau gwan y *motive power* i ddewis y goreu ac i garu yr uchelaf; nid i ufuddhau i'r Deg Gorchymyn, ond eu harwain i hiraethu am gymundeb â Duw ag sydd uwchlaw nid yn unig y Deng Air, eithr uwchlaw pob deall, pob *argument*, a phob chwant. Y mae arnom angen ffydd ysprydol yn ngoleuni llachar yr hon y diflana pob gwahaniaethau dı-bwys fel y diflana niwl y boreu o flaen cyhoeddwr y wawr. Rhagor o wres, nid rhagor o oleu, sydd yn eisiau arnom; rhagor o dân, nid rhagor o sicrwydd. Gwyleidd-dra, ynte, ydyw ein agwedd - *attitude*—tuag at ddirgelion bywyd.

Plant yn dysgu bob dydd ddylasem fod,

yn bregethwyr a gwrandawyr, ac nid beirniaid yn gosod i lawr y ddeddf, nac offeiriaid holl - wybodol yn traethu'r ffydd a draddodwyd unwaith i'r saint. Wrth ymyl gwely'r claf yn dioddef am bechod ei dadau—"What have I done, Mr. Evans, that I should suffer thus?" meddai aelod o'm heglwys wrthyf ar ei wely angeu. Ac y mae yn dda genyf 'nawr i mi ddyweyd—"My friend, I know not. I can't understand it. But it can't be inconsistent with God's love for you, though how to explain the apparent inconsistency, I know not." Gwyleidd-dra! Fobl anwyl! 'Does angen ond ychydig o wroldeb i gredu pob peth, neu i broffesu credu yn mhob peth; eithr mae eisiau gwroldeb cryf i ddweyd yn "*crisis*" duon bywyd a marwolaeth—

I know not where God's islands lift
Their branded palms in air,
I only know I cannot drift
Beyond God's love and care.

Nid sicrwydd, ynte, ond ffydd, nodwedda "Eglwysi y Duw byw."

Gan mai eglwysi blaen-fynedol—*progressive churches*—ydyw "Eglwysi y Duw byw," eglwysi a'u llygaid yn agored tuag at yr haul yn codi ar fyd newydd, rhaid i bob mudiad gwladol a chymdeithasol er codi safle ein cyd-ddyn gael cydymdeimlad yr eglwysi hyn. Os ydyw ein crefydd ni yn tarddu yn nghariad y Tad, fel y dywedwn, anghenraid ydyw iddi lifo hefyd trwy gymdeithas. 'D oes dim posibilrwydd cael crefydd i'n cymhwyso ar gyfer byd arall ar wahan i'r byd yma. Os na fedrwch nofio yn yr afon sydd yn rhedeg drwy'ch plwyf, beth fydd eich tynged os anturiwch i'r môr? Yn ddau a dau, ac nid yn un ac un, y rhaid myned gartref i'r Hedd Tragwyddol. "Heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys"—y Crist pur a'r lleidr aflan law yn llaw yn cyd-gerdded y llawr marmor at orseddfainc y Tad!

Heaven's gate is shut to him that
comes alone;
Save thou a soul, and it shall save
thine own.

Disgwylir, ynte, i "Eglwysi y Duw byw" fod o blaid y gwan, nid yn mhlith eglwysi eraill, ond yn y *forefront;* nid yn wir i fod yn boliticaidd—Duw a'n gwaredo ni rhag y pydew yna!—eithr i fod yn mlaenllaw yn y gwaith o gymhwyso yspryd trugarog a chariadus Mab Duw a'i Efengyl o dangnefedd ac ewyllys da ac o gyf-

iawnder at ddyrys-bynciau y dydd. Mae benywod ein gwlad yn gwaeddu am gyfiawnder : beth ydyw cyfraniad "Eglwys y Duw byw" at y ddadl holl-bwysig hon? Mae Eglwys Sefydledig Cymru yn gofyn am gael mwynhau ei gwaddoliadau er taenu Efengyl Crist yn ei dull ei hun ; a oes digon o anibyniaeth meddwl, digon o faddeugarwch am y gorphenol, yn "Eglwysi y Duw byw" i ateb y cais yna heb lusgo ein Cristionogaeth drwy laid du partïon politicaidd? Mae Cymru werdd—ac O! mor brydferth ydyw i un sy'n byw un mis ar ddeg bob blwyddyn yn y mwg—yn ysglyfaeth i'r darfodedigaeth : beth mae eglwysi Cymru wedi wneyd i atal y pla hwn? Codi ffenestri yn eu lleoedd addoli na ellir eu hagor ; cynal cyrddau gweddi o gylch y meirw, a thaenu'r haint drwy'r ardal. Llwyr anghofio sancteiddrwydd y bywyd hwn! addaw telyn aur yn y nef i chwi yn lle iechyd a hir-hoedl yma! Addaw tragwyddoldeb o wynfyd yn y dyfodol am ba un na wyddom ddim fel "set-off"—fel *compensation*—am ganlyniadau creulonderau dyn i ddyn yn sir Aberteifi! O! 'r fath gamsynied prudd!

'Tis Heaven must come,
Not we must go.

Rhaid i'r nefoedd ddyfod i lawr yn mhlith dynion. "Deled Dy Deyrnas." Sut? "Gwneler Dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd." Nac anghofiwn, ynte, y disgwylir i aelodau "Eglwys y Duw byw"—nid eglwys traddodiadau meirw—i garu ein cyd-ddyn, nid mewn gweddi, ac emyn, a phregeth, ond hefyd wrth brynu a gwerthu, wrth ei farnu a'i bwyso, wrth faddeu iddo a'i galonogi, wrth ei gynorthwyo o awr i awr yn arwest bywyd.

Byddwch yn Iesu Grist,

yn eich dull bach eich hunain, i rywun gwanach na chwi eich hunain. Gadewch i rywrai weled gwynebpryd Duw yn eich gwynebpryd chwi fel y darfu i blant Israel ei weled yn wynebpryd Moses. Dyma fi wedi terfynu. Am bob gair caled maddeuwch im'. Os oedd yna gerydd anuniongyrchol yn yr anerchiad, credwch fi mai o gariad ydoedd. Bendith Duw arhoso ar eich temlau bychain ond anwyl yn sir Aberteifi—yn weinidogion ac yn gynulleidfaoedd. Mawr ydyw eich ymddiriedaeth. Peidiwch gwangaloni os yw'r dorf yn myned heibio drysau eich eglwysi. Tra fod tân yn cyneu ar eich allor ni fydd eich gwaith yn ofer yn yr Arglwydd. Wrth fyned i'r gwely neithiwr, yn llawn pryder am y boreu, cydiais mewn llyfr gan A. C. Benson, ac ar un o'i dudalenau darllenais y dernyn a ganlyn—yr wyf yn ei gyflwyno i'ch ystyriaeth :—

"Gwella bywyd, os yn bosibl, ddylasai fod ein hamcan ; ond yr anhawsder yw, nid gweled y cain a'r cyfiawn, ond peri i eraill ddyheu am danynt. Wedi'r oll, efallai mai Duw sydd yn gwybod oreu, ac fod ganddo resymau da dros ohirio. Nid yw o fawr bwys ein bod yn bradychu ein gwendid drwy yr hyn a ddywedwn neu yr hyn a wnawn ; yr hyn sydd o bwys yw hyn : ein bod wedi crefu am rywbeth uwch na ni ein hunain, ac wedi ei ddangos i eraill. Dichon nad ydym wedi ei gyrhaedd ; gall na chyrhaeddir ef gan eraill ; ond yr ydym wedi dangos na feiddiwn ymfoddloni yn ein gwendid, nad ydym wedi caniatau i ni ein hunain fod yn ddistaw am ein gobeithion puraf, nad ymorphwyswn mewn sicrwydd gau ; na cheisiwn ateb y cwestiwn 'nawr drwy gau ein llygaid ar ei anhawsderau ; y ceisiwn ddal yn gryf mewn llonder a thynerwch yn y grediniaeth fod gan Dduw ryw bwrpas cadarn a chariadus, er tywylled y cysgod a orwedd ar ein llwybr, er dued yw'r mynydd gwgus a orwedd rhyngom â'r gwastadedd heulog draw."

HERESI YN MHLITH Y WESLEYAID.

Nos Sul, Awst 10fed, traddododd y Parch. E. T. Evans bregeth ar y geiriau a welir yn Dadguddiad 14 : 6 —"Ac mi a welais angel arall yn ehedeg yn nghanol y nef, a'r efengyl dragwyddol ganddo, i efengylu i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear, ac i bob cenedl, a llwyth, ac iaith, a phobl." Ebe Mr. Evans :—

"Y mae'r ffurf yn yr hwn y gosodir y meddylddrych allan yn fynych yn achosi dadleu poethach na'r meddylddrych ei hunan. Byddwn yn fynych yn cytuno yn nghylch egwyddorion ac yn cwympo maes gyda golwg ar y deffiniad o honynt. Eto, nid yw y ffurf ond cysgod o'r gwir sylwedd. Ymddengys yn beth ffol i ddyrchafu systemau a ffurfiau i fath o sefyllfa derfynol, ac yna ymryson yn eu cylch." Yna aeth y pregethwr yn ei flaen i ddywedyd,—"Ceir enghraifft ddiweddar o'r cais i roddi i ffurfiau diflanol fath o sylwedd parhaol mewn perthynas i'r Parch. George Jackson, yr hwn a gyhuddwyd o heresi gan y Gynadledd Wesleyaidd. Ond yn awr, beth oedd y pechod mawr oedd Mr. Jackson yn euog o hono, yn erbyn yr hwn y dywedwyd cymaint o bethau chwerwon gan y wasg a chan y pwlpud? A fu yna gais i iselhau'r safonau moesol, ac i ddi-raddio sylweddion tragwyddol gwirionedd, cyfiawnder, a chariad? A oedd wedi dywedyd rhywbeth mewn amharch am Dduw ac am yr enaid? Dim gair. Yr oll oedd yn euog o hono oedd y trosedd ofnadwy o ddal nad oedd ystoriau'r cread yn y ddwy benod gyntaf o Genesis ddim yn hanes, ond chwedloniaeth; gwirioneddi sy'n hyspys heddyw i bob bachgen ysgol deallus, ond gwirionedd oedd rhai o weinidogion y Wesleyaid yn anhyspys o hono. Nid oedd ystoriau y cread ond ffurf amserol o feddwl, yr hwn oedd yn rhaid iddo roi lle i esponiad gwell fel yr oedd dealltwriaeth dyn yn cynyddu yn ei berthynas a'r byd, ac a dyn, a Duw. Ymlynu'n ddall a diystyr o'r canlyniadau wrth hen ffurfiau o feddwl am eu bod yn hen, nid yw ond y math waethaf o inffideliaeth, gan ei fod yn gwadu bodolaeth egwyddor ganolog blaenfynediant, yr hwn sydd yn gorwedd o dan holl hanes. Ac nis gallwn lai na llawenhau fod synwyr cyffredin mwyafrif mawr y Gynadledd Wesleyaidd wedi penderfynu cadw gwasanaeth Mr. Jackson, er gwaethaf ysgrechiadau ychydig o bobl gulfarn, y rhai wedi eu meddianu gan eu hunan-bwysigrwydd, a dybiant fod ganddynt hawl oddi wrth Dduw i benderfynu cred miloedd o'u cyddynion. Nid yw o un lles i geisio cadw yn yr un fan (y *status quo*) yn unrhyw beth. Yr ydym yn byw mewn byd sydd yn tyfu, ac fe wnaiff egwyddor ddiflino, byth gynyddol bywyd stori fer o'n systemau bychain cryno, a'n horganiaethau dibwynt, er mwyn estyn allan at rai uwch a mwy ardderchog. Yr organiaethau goreu sy' genym heddyw, hwy a basiant i ffwrdd fel y rhai o'r blaen. Nid y'nt ond y ffurfiau diflanol yn y rhai y mae meddyliau mawrion wedi eu corffori dros amser."

Yna aeth Mr. Evans yn ei flaen i gyfeirio at yr *International Conference* yn Paris. Ebe ef,—"Rhoddir i ni ddangoseg lled dda o'r hyn yw gogwydd crefydd y dydd gan y Gynadledd Ryngwladol a orphenodd ei gwaith ychydig ddyddiau yn ol. Yno fe welwyd dynion a goleddent bob ffurf o grefydd yn cwrdd â'u gilydd ar yr un llwyfan cyffredin i geisio helpu eu gilydd yn eu hymchwil am y gwir ac am y bywyd eangach. Yno yr oedd Iuddewon, Mahometaniaid, Hindwaid, Bwddyddion, Cristnogion, a llawer eraill, wedi dyfod yn nghyd, heb deimlo un math o anghytundeb nac anghysur, i gyfnewid profiadau a meddyliau, a

suddo eu heneidiau yn nyfroedd adfywiol y bywyd cyffredinol. Wrth gwrs, i'r sectwr croendew yn ei Fethel fach y mae hyn oll yn anamgyffredadwy. Fe edrych hwnw fel un wedi pendroni ar beth sydd yn ei olwg ef yn alltudiad rhyw ffiniau terfyn amlwg, yn ddarostyngiad safonau moesol, yn teneuo, ac iddo ef yn materoli'r profiad ysprydol. Ond fe wnaiff y bywyd gorchfygol ac unoliaethol a dynodd yn nghyd gynifer o genedloedd a chrefyddau yn Paris, ysgubo oddi amgylch ac i fewn i'r capelau bychain—Bethel a Moriah—ac ysgubo i ffwrdd eu systemau bychain uniongred, eu dall bleidiaethau, a'u rhagfarnau, a'u cludo yn mlaen ac i fyny, er gwaethaf ysgrechfeydd a gwrthdystiadau personiaid a gweinidogion, a diaconiaid, hyd nes caffont hwythau hefyd brofi dwfr y bywyd cyffredinol, a sylweddoli ei ddaioni a'i rymusder.—O'r *Aberdare Leader* am Awst 9fed, 1913.

PRIODAS.

AWST 2il, yn nghapel Cribyn, gan y Gweinidog, Mr. Daniel Rees, Mount Pleasant, a Miss Anne Jones, Tanlan, Cribyn.

MARWGOFION.

MEHEFIN 21, yn nhy ei merch a'i mab-yn-nghyfraith — Pantstreimon, Llandyssul, Elizabeth, gweddw y diweddar Thomas Thomas, South-end, Cwrtnewydd, yn 74 oed. Merch Brynhogfan oedd yr ymadawedig, ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes, ond symudodd hi a'i phriod i South-end i dreulio nawnddydd eu bywyd. Tra ar ymweliad a Pantstreimon cymerwyd hi yn glaf a chafodd gystudd caled ond byr ei barhad, ac ar y dydd uchod ehedodd ei hyspryd at yr hwn a'i rhoes. Gadawodd dri o blant, wyrion a pherthynasau eraill i wylo ei cholli. Claddwyd y Mawrth canlynol yn Capelybryn, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Mae'n felus meddwl—eto'n nghyd
Cawn gwrddyd yn y nef.

[Mae'n flin gan yr ysgrifenydd na na fuasai yr uchod wedi ei ddanfon i'r YMOFYNYDD yn gynt.]

GORPHENAF 24, yn 12 mlwydd oed, Mary Anne Lloyd, anwyl ferch Mr. a Mrs. Lloyd, Blaenffynon, Horeb. Profedigaeth chwerw ydyw gorfod ffarwelio a geneth ieuanc yn gynar ar ei gyrfa; un nid yn unig a gerid ac a anwylid gan rieni a chwaer ond hefyd gan aelodau Ysgol Sul ac ysgol ddyddiol a phawb a'i hadwaenai. Ni fu ei chystudd yn faith, ond yn ystod y cystudd hwnw dangosodd sirioldeb ac amynedd a doethineb uwch y cyffredin o'i hoedran. Nerth a gaffo y rhieni, y chwaer a'r perthynasau, i beidio galaru fel rhai heb obaith. Claddwyd ei gweddillion marwol yn mynwent Llwynrhydowen, y Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Tom Davies (A.), Horeb, ac E. O. Jenkins.

AWST 9. Grace Evans, Victoria Terrace, Llanbedr, yn 29 mlwydd oed. Merch ydoedd i'r diweddar Evan Evans, Blaencathal, Llanwenog, a bu'n

nychu am lawer blwyddyn. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y ty gan yr offeiriad, ac yn y capel a'r fynwent (yn absenoldeb y gweinidog) gan y Parch. Mr. Prytherch (C.M.).

AWST 12, yn 77 oed, Margaret Lewis, Pendre, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn un o gymeriadau mwyaf adnabyddus Llandyssul, ac yr oedd wedi meddianu llawer o nodweddion ei pherthynasau. Yr oedd yn un o'r ychydig hyny sydd wedi eu gadael oeddent yn flaenllaw yn sefydlu yr achos Undodaidd yn Llandyssul. Dywedir, pan yn ieuanc, ei bod yn meddu ar lais nodedig, yr hyn sydd o werth mawr mewn unrhyw gynulleidfa. Yr oedd yn Rhyddfrydwraig bybyr iawn, a medrai roddi rheswm dros y gobaith oedd ynddi. Claddwyd ei rhan farwol yn mynwent eglwys Llandyssul, y Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu yn y ty, y ficer yn yr eglwys ac ar lan y bedd. Gadawodd un ferch a chwaer i alaru ei cholli.

AWST 19, yn 65 mlwydd oed, Mr. John Bowen, Llwyneinon, ger Castellnewydd-Emlyn. Yr oedd yr ymadawedig yn berson adnabyddus, yn enwedig yn undeb Castellnewydd, gan ei fod wedi gwasanaethu y swydd o arolygydd iechydol am lawer o flynyddoedd, a chafodd ei ddewis yn llywydd Cymdeithas Arolygwyr Iechydol ychydig flynyddoedd yn ol. Yr oedd yn wr gwybodus a deallgar, a gelwid arno, o herwydd hyny, i gyflawni llawer o gymwynasau yn ei ardal, yr hyn a wnai gyda pharodrwydd bob amser i bawb. Yn ei farwolaeth cafodd eglwys fechan Panteg golled fawr. Y dydd Sadwrn dilynol rhoddwyd y rhan farwol o hono i orwedd yn mynwent dawel Panteg. Gwasanaethwyd yn y ty a'r capel gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandyssul yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Symlog Morgan (B.), Castellnewydd; Dr. Davies (A.), Capel Iwan; a J. H. Jenkins, rheithor Cilrhedyn. Gadawodd weddw a lliaws o blant mewn galar ar ei ol. Un o honynt yw y Parch. S. E. Bowen, Crumlin.

MANION AC HANESION.

BWLCH-Y-FADFA. — Digwyddodd gwall rywsut yn hanes yr ŵyl dê a gynhaliwyd yma yn ddiweddar. Mr. James Davies, Paris House, Gorseinon, gynt o Crugeryruchaf, roddodd y wledd, ac nid ei frawd, fel y cofnodwyd. Clod i'r hwn y mae clod yn ddyledus.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.— Yn hanes gweithrediadau y pwyllgor mewn man arall yn y rhifyn hwn, dylesid fod wedi cofnodi fod y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, wedi ei ddewis i fod yn Llywydd am y flwyddyn; W. S. Jones, Ysw., M.A., M.Sc., Aberystwyth, yn Is-lywydd; y Trysorydd, yr Ysgrifenydd, a'r Archwilwyr fel o'r blaen.

AT EIN GOHEBWYR.— Dymunwn gydnabod gyda diolchgarwch dderbyniad cyfraniadau oddi wrth y rhai canlynol: — R. J. J., Parcwyson; E. C. J., a D. J. M. Caiff yr oll ymddangos yn fuan. Dywedai y prif-fardd Sarnicol yn ddiweddar mai angen Cymru heddyw ydyw llai o farddoniaeth a mwy o ryddiaeth; felly, dywedwn ninau fod rhyddiaeth yn fwy derbyniol na barddoniaeth yn yr YMOFYNYDD.

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.—Cyfarfu Pwyllgor yr Ysgol Sul yn Cribyn Awst 8. Cymerwyd y gadair gan y Parch. J. Davies. Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol gan yr Ysgrifenydd, a phasiwyd ei fod yn cael ei dderbyn. Pasiwyd y penderfyniadau canlynol :—(1) Fod yr Ysgrifenydd i barotoi Gwersi ar gyfer Safonau I. a II. (2) Fod ymdrech i gael ei gwneyd yn mhob ysgol i ail gychwyn Safonau III. a IV. (3) Fod Luc 1—8 i fod yn Faes Llafur i'r safonau hyn. (4) Fod y Parch. D. Evans, Cribyn, i fod yn arholwr cyffredinol. (5) Fod yr arholiad i Safonau III. a IV. i fod yn ysgrifenedig. (6) Nad oes caniatad i neb i eistedd mewn mwy nag un safon. Rhoddir gwybod eto drwy yr YMOFYNYDD pryd bydd y gwersi yn barod.

"CYMRU."—Pan ar orphen y Rhifyn hwn o'r YMOFYNYDD, daeth *Cymru* am Fedi i law. Y mae y sylw a wna o'r YMOFYNYDD o fis i fis yn amheuthyn, ac nid oes angen ymddiheurad am osod i fewn ei adolygiad diweddaf yr hwn sydd fel y canlyn :——"Mae llawer peth yn gwneud YR YMOFYNYDD yn ddyddorol iawn i mi. Un peth yw ei fod yn ymosod yn barhaus ar sectyddiaeth, ac yntau ei hun y mwyaf sectol o holl gylchgronau Cymru, a pheth doniol yw ei weled yn gonest ymosod ar y lleill heb deimlo ei hygar fai ei hun. Beth pe meddai'r *Drysorfa* gymaint ar etholedigaeth, neu'r *Dysgedydd* gymaint ar anibyniaeth yr eglwys unigol, neu'r *Haul* ar olyniaeth apostolaidd, neu *Seren Gomer* ar fedydd ag a fedd yr *Ymofynydd* ar Undodiaeth? Pawb a'i gerdd ei hun, ond y cyfaill hwn o Landyssul yw'r canwr dewraf. Peth arall yw dillynder ei ryddiaith, nid yw'n ormod dweyd ei fod yn wastad yn gain. Peth arall yw amrywiaeth ei gynnwys ; a cheir yn mhob rhifyn rywbeth gwerthfawr fel erthyglau'r Parch. E. Ceredig Jones ar yr Amerig. Ac nid y peth lleiaf dyddorol yw'r marwgofion tyner, naturiol, a byw. Yn rhifyn Awst y mae'r coffa cyntaf yn cyffwrdd y galon fel un o ganeuon Sarnicol ; ac i ddilyn daw porthmon parchus, mam weithiodd yn galed i fagu plant amddifaid, bachgennyn a'i dad ymhell ar y môr, cynghorydd fu'n dda wrth ei fam a'i wlad, - beth sy'n fwy dyddorol, wedi'r cwbl na ffeithiau bywyd ?"

GWLEIDYDDIAETH.—1. Y mae un gwirionedd gwleidyddol ar ol y llall yn codi'n araf i'r golwg allan o fynwes profiad y gorphenol. 2. Rhaid i'r bobl gael rhan yn y llywodraeth er mwyn ei gwneud yn ddyogel,—a chyda'r argyhoeddiad hwn, mae'r syniad o hawl ddwyfol breninoedd (*divine right of kings*) yn rhwym o syrthio. 3. Rhaid i fuddiant (interest) y bobl yn y llywodraeth gael ei sicrhau drwy gynrychiolwyr, drwy bleidlais,—a chyda hyny fe syrth, neu yn hytrach, feallai, fe sudda'r hawliau a ddeuant trwy etifeddiaeth. 4. Dysg profiad ei bod yn bosibl i'r mwyafrif ormesu, ac fel canlyniad daw amheuaeth yn nghylch cysegredigrwydd niferoedd, a gwasgir hawliau'r llai-rif i sylw, a chyda hyny cyfyd yr angenrheidrwydd am ddealldwriaeth, am addysg, ie am rinwedd, a'r ddyledswydd sydd ar y naill ddyn at y llall, ac yn ben ar y cyfan am barch dyladwy i'r Deddfroddwr Goruchaf.

PANTDEFAID. — Ar y dydd cyntaf o Awst talodd Ysgol Sul Pantdefaid ymweliad a Cheinewydd. Cafwyd tywydd ffafriol a threuliwyd dydd dedwydd yn awelon y môr.

LLWYDDIANT.—Bydd yn dda gan gyfeillion a chydnabod Mr. D. J. Thomas, B.Sc., Ffosyffin, Cellan, glywed ei fod wedi llwyddo i enill y *Bucknill Scholarship* o gan' gini, yn University College Hospital, Llundain.

GWEDDI YR ARGLWYDD.

CYMRAEG 1555.

Ein tad rhwn wyt yn y nefoedd, santeiddier yr henw tau. Deued y dyrnas tau. Gwneler dy wyllys ar y ddaear megis ag yn y nifi. Ein bara beunyddawl dyro inni heddiw. A maddeu ynny eyn deledion megis ag i maddeuwn in deledwyr ninau. Ag na thowys ni i brofedigaeth. Namyn gwared ni rhag drwg.—Amen.

JEAN JACQUES ROUSSEAU, a anwyd yn Genefa Mehefin 28, 1712, a bu farw yn 1778; fe'i cyfrifid fel proffwyd ac fel prif arwr os nad prif achos y Chwyldroad yn Ffrainc. Y mae rhai wedi ei gymharu a'i gyferbynu a John Calfin (1509–1564), neu benrheolwr Genefa. Teimlai'r ddau gyffelyb awydd i gymhwyso tipyn ar gymdeithas, a meddai'r ddau y syniad fod ganddynt neges i'r byd, a chyhoeddai'r ddau eu neges gyda hyawdledd anwrthwynebol. Eto yr oedd y ddau ddyn yn wahanol iawn i'w gilydd. Gosododd Calfin lyfetheiriau ar y meddwl dynol, er yr amcana yn rhyw ystyr i gyrhaedd—"Rhyddid meibion Duw." Brwydro yn erbyn gormes wnai Rousseau; "genir dyn yn rhydd ond y mae yn mhob man mewn cadwynau," ebe fe. Ac eto, "Y mae pob peth yn dda fel y daw o ddwylaw natur; ond y mae pob peth yn dirywio yn nwylaw dyn." Pregethai Calfin lygredd dyn wrth natur, Rousseau ddaioni dyn wrth natur. Dywedai Mark Pattison fod rhyddid Ewrop wedi ei eni allan o'r gormes osododd Calfin ar Genefa.

Y CRWYDRYN
(*The Tramp.*)

Trwy waith a chwys, torth a chosyn—
  Efe, y ffals grwydryn: [ni fyn
Na, na! 'Cheir dim da o'r dyn
Di-raen a budr, Hen bwdryn!
CLEDLYN.

MACHLUD HAUL.

Pan fo'r heulwen yn machludo,
  Ar y gorwel tawel, draw,
Aur a phorphor sy'n addurno
  Y cymylau, ar bob llaw;
Fel mae'r hwyrnos yn dynesu,
  Harddwch anghydmarol sydd,
Dros y ddaear yn ymdaenu
  I roi ffarwel deg i'r dydd.

Pan ddaw'r awr i haul fy mywyd
  I fachludo hwnt i'r llen,
Boed i liwiau gwlad y gwynfyd
  Harddu'r wybren gylch fy mhen;
Bydded fy mynudau olaf,
  Cyn rhof ffarwel hoff i'r byd,
Y siriolaf a'r prydferthaf
  O'm harosiad yma i gyd.
E. CEREDIG JONES.

SUL YN SAL.

Pan oedd y du aderyn
  Yn canu ger y nant,
A blodeu glwys y gwanwyn
  Yn gwenu yn y pant;
I heirdd gynteddau Seion
  Ymlwybrai'r saint yn llu,
Er gwledda ar ddanteithion
  Efengyl Iesu cu.

Ond gartref yn gystuddiol,
  Carcharor oeddwn i;
Rhaid ydoedd bod yn foddlon
  Ar bwlpud gwely plu:
Os rhoddwyd gwleddoedd breision
  I'r saint oedd wedi cwrdd,
Ces inau rai o'r briwsion
  Syrthiasant dan y bwrdd.—*D.D.*

Ceninen Ebrill 1913.

Y NOS.

Cysgodau'r hwyr sy'n taenu
Yn araf iawn eu lleni,
  Dros wyneb gwyn y dydd;
Mae Natur rol hir weithio,
Yn gwybod beth yw blino,
A melus yw gorphwyso
  Yn mreichiau cwsg yn rhydd.

Pa le mae y fwyalchen
Oedd gynt mor ber ei hacen,
  Ar uchel frig y pren?
Daeth cwsg ar eu hamrantau
Pan gauodd dydd ei ddorau,
A chysga hyd y borau,
  A'r mân-blu gylch ei phen.

Ond clywai un aderyn,
Mal angel gyda'i delyn,
  Heb gwmni seren dlos;
O! swynol yw y seiniau
Sy'n esgyn i'r wybrenau,—
Mae'r eos ar ei gorau
  Ar hyd y dduaf nos.
Glyncorrwg. R. ROBERTS.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

"PARABL PERERIN CYMREIG
O GELLIONEN I GANAAN AC YN OL."

DARLITH

:: :: :: GYDA DARLUN A GWISG. :: :: ::

Ymofyner a'r

Parch. D. G. REES, Trebanos, Pontardawe, Glam.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London.
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester.
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry.

Authorised Capital ..	**£22,200,000**	**Subscribed Capital** ..	**£19,148,340**
Paid up Capital ..	**£3,989,237**	**Reserve Fund** ..	**£3,390,313**
	Deposits ..	**£83,000,000.**	

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.